

Cyngor Proffesiynol

# Rheoli Perfformiad

**UCAC** | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

# Rheoli Perfformiad

Bwriad Rheoli Perfformiad yw gosod fframwaith i athrawon ac arweinwyr gytuno ar flaenoriaethau ar gyfer gwella, a hynny yng nghyd-destun Cynllun Datblygu'r Ysgol. Mae'r broses yn seiliedig ar safonau proffesiynol cenedlaethol.

## Sylwadau a chyngor i aelodau

### 1. Y Polisi Rheoli Perfformiad a rôl y llywodraethwyr

- Rhaid i bob ysgol gael Polisi Rheoli Perfformiad. Mae templed polisi ar gael gan Lywodraeth Cymru: <https://hwb.gov.wales/datblygiad-proffesiynol/rheoli-perfformiad/>
- Mae'n rhaid i Gorff Llywodraethu, wrth lunio Polisi Rheoli Perfformiad yr Ysgol, "sichau yr ymgynghorir â'r holl athrawon yn yr ysgol a bod rôl yr undebau llafur cydnabyddedig yr athrawon yn cael ei pharchu'n llawn yn y broses."
- Mae'n ofynnol i'r Pennaeth lunio adroddiad ysgrifenedig i'r Corff Llywodraethu'n flynyddol ar weithredu'r polisi. Ni all hwn fod yn adroddiad manwl gan na ellir trafod sefyllfa staff unigol yn y fath adroddiad; yn hytrach, gellir cadarnhau bod y drefn wedi'i dilyn ac amlinellu'r math o hyfforddiant a datblygiad proffesiynol sydd ei angen.

### 2. Rôl y Pennaeth

- Pennaeth sydd i benodi gwerthuswr ar gyfer bob athro; dylai ystyried pwy sydd yn y sefyllfa orau i adolygu gwaith yr athro ac ymgynghori â'r athro ynglŷn â phwy ddylid ei benodi fel gwerthuswr.
- Mae angen i Pennaeth ystyried y llwyth gwaith sy'n gysylltiedig â bod yn werthuswr a darparu cymorth addas.
- Mae'n bwysig bod disgrifiadau swydd staff yn gyfredol.

### 3. Y Cylch Gwerthuso

- Blwyddyn yw hyd cylch gwerthuso fel arfer a dylai ddechrau rhwng 1 Medi a 31 Rhagfyr; y Pennaeth fydd yn pennu'r amserlen ar gyfer pob athro.
- Mae'r broses yn un barhaus gydol y flwyddyn, gyda thri chyfnod sef cynllunio, monitro perfformiad ac adolygu perfformiad.

#### 4. Pennu Amcanion

- Mae tri amcan yn ddigon fel arfer. Dylai'r amcanion ganolbwyntio ar faterion y mae gan yr athro ddylanwad uniongyrchol drostynt.
- Wrth bennu amcanion rhaid ystyried yr hyn y gellir yn rhesymol ei ddisgwyl i athro ei gyflawni

#### 5. Gweithdrefnau monitro a datblygiad proffesiynol

- Dylid dod i gytundeb rhwng yr athro a'r gwerthuswr ynghylch sut i fonitro cynnydd yn erbyn yr amcanion, gan gynnwys unrhyw gefnogaeth a fyddai'n fuddiol
- Mae datblygiad proffesiynol yn elfen allweddol o'r broses; gall gynnwys gweithgareddau amrywiol a dylai ddigwydd gydol y flwyddyn.

#### 6. Arsylwi gwers fel rhan o'r broses

- Dim ond person â statws athro cymwysedig all arsylwi gwersi at ddibenion rheoli perfformiad; mae angen pum diwrnod o rybudd ar gyfer arsylwi.
- Mae angen penderfynu ar natur a hyd yr arsylwi ymlaen llaw a bod yn glir ynghylch yr hyn mae'r gwerthuswr yn mynd i ganolbwyntio arno.
- Dylai athro dderbyn adborth i'r arsylwi o fewn pum diwrnod ysgol fel arfer.
- Ni ddylai gwerthusiad rheoli perfformiad fod yn rhan o weithdrefnau medrusrwydd, disgyblu na diswyddo.

#### 7. Cofnodi

- Drwy'r cylch rheoli perfformiad, dylai'r athro gadw cofnod o'i asesiad ei hun o berfformiad yn erbyn yr amcanion, manylion unrhyw ddatblygiad proffesiynol perthnasol, a manylion unrhyw ffactorau sy'n effeithio ar berfformiad; gellir defnyddio'r Pasbort Dysgu Proffesiynol i nodi dysgu proffesiynol a chasglu tystiolaeth
- Er bod gofyn bellach i athro gadw cofnod o arferion a datblygiad proffesiynol, nid oes angen i'r cofnod hwn fod yn faith na beichus. Ceir deunydd enghreifftiol gan Lywodraeth Cymru sy'n cadarnhau mai pwyntiau ar gyfer trafodaeth ddylid eu cofnodi ac nid paragraffau estynedig. Rhaid i'r cofnod fod ar gael i'r gwerthuswr.

## 8. Yr adolygiad gwerthuso a'r datganiad gwerthuso

- Ar ddiwedd y cylch gwerthuso, neu'n agos i ddiwedd y cylch, rhaid cynnal adolygiad gwerthuso i gydnabod cyflawniadau a thrafod meysydd i'w gwella, cymorth a datblygiad proffesiynol. Mae modd cyfuno'r cyfarfod hwn â'r broses o bennu amcanion ar gyfer y cylch nesaf.
- Dylai athro dderbyn rhybudd ysgrifenedig o leiaf ddeg diwrnod cyn yr adolygiad gwerthuso blynyddol.
- O fewn 10 diwrnod ysgol i'r adolygiad gwerthuso, rhaid i'r gwerthuswr baratoi datganiad ysgrifenedig cryno i'r athro yn cofnodi'r prif bwyntiau a wnaed gan y gwerthuswr a'r athro, a'r casgliadau, gan gynnwys unrhyw anghenion hyfforddiant.
- Mae'n arfer dda i'r gwerthuswr geisio cytuno ar eiriad y datganiad terfynol gyda'r athro o fewn y 10 diwrnod.
- O fewn 10 diwrnod i dderbyn y datganiad gwerthuso terfynol, gall yr athro ychwanegu sylwadau ysgrifenedig a bydd rhain yn rhan o'r datganiad.
- Rhaid i'r datganiad gwerthuso fod ar gael i'r Pennaeth.
- Gall Estyn ofyn am gael gweld datganiad amcanion Pennaeth, ond nid y datganiad gwerthuso. Ni allant ofyn am ddatganiad amcanion na datganiad gwerthuso athro.
- Mae dogfennau rheoli perfformiad athro yn ddogfennau personol a chyfrinachol a dylid eu cadw mewn lle diogel bob amser. Dim ond personau penodol sydd â'r hawl i'w gweld ac mae gofynion Deddf Diogelu Data 1998 yn berthnasol i'r dogfennau hyn.

## 9. Apelio

- Mae gan athro hawl i apelio yn erbyn y datganiad gwerthuso; rhaid gwneud hynny o fewn 10 diwrnod ysgol i dderbyn y datganiad ac mae'n rhaid ei gyflwyno'n ysgrifenedig i'r corff llywodraethu.
- Dylai aelodau gysylltu ag UCAC am gyngor mewn sefyllfa o anghydfod neu anfodlonrwydd yn deillio o'r broses rheoli perfformiad.

## 8. Datblygiad cyflog yn gysylltiedig â Pherfformiad

Ers mis Medi 2020, nid yw datblygiad cyflog athrawon ar y Brif Raddfa Gyflog yn gysylltiedig â rheoli perfformiad. Y disgwyliad arferol yw bod athrawon yn symud i fyny un pwynt ar yr y graddfeydd cyflog

cededlaethol yn flynyddol, oni bai eu bod yn destun gweithdrefnau medrusrwydd ffurfiol.

Mae'r dilyniant o'r Brif Raddfa Gyflog i'r Raddfa Gyflog Uwch yn parhau i fod ar sail perfformiad. Wedi hynny, y disgwyliad arferol yw bod athrawon yn symud i fyny un pwynt ar y Raddfa Gyflog Uwch bob dwy flynedd.

### **Arsylwi Gwersi mewn Ysgolion**

Mae UCAC yn ymwybodol iawn bod arsylwi gwersi ar gynnydd ac yn bryderus bod pwysau afresymol ac annheg ar athrawon mewn rhai ysgolion oherwydd gorddefnydd a chamddefnydd o arsylwi gwersi.

Mae'r daflen wybodaeth [Arsylwi Gwersi mewn Ysgolion](#) yn cynnig arweiniad pellach gan UCAC ar y mater.

Mae UCAC yn derbyn bod arsylwi gwersi mewn modd cadarnhaol a chytunedig yn gallu cyfrannu tuag at ddatblygiad proffesiynol, rhannu arfer da a chodi safonau.

Barn UCAC yw bod yr amcanion hyn yn cael eu cyflawni orau lle mae'r arsylwi'n digwydd oddi mewn i strwythur clir Polisi Arsylwi Gwersi wedi'i lunio yn dilyn trafodaeth drylwyr gydag athrawon ac ymgynghoriad undebau.

### **Rhagor o wybodaeth**

Gwybodaeth am Reoli Perfformiad gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys y Canllawiau diweddaraf (Rheoli perfformiad i benaethiaid; Rheoli perfformiad i athrawon; Rheoli perfformiad ar gyfer athrawon digyswllt): <https://hwb.gov.wales/datblygiad-proffesiynol/rheoli-perfformiad/>

Gwybodaeth am Safonau Proffesiynol gan Lywodraeth Cymru: <https://hwb.gov.wales/datblygiad-proffesiynol/safonau-proffesiynol/>

**I gael cyngor neu arweiniad pellach, cysyllter â'r Swyddog Maes perthnasol. Ffoniwch swyddfa UCAC ar 01970 639950 i gael sgwrs â:**

- Mererid Lewis Davies, Swyddog Maes y De-ddwyrain, [mererid@ucac.cymru](mailto:mererid@ucac.cymru)
- Jen Jones, Swyddog Maes y Canolbarth a'r De-orllewin, [jen@ucac.cymru](mailto:jen@ucac.cymru)
- Gareth Morgan, Swyddog Maes y Canolbarth a'r De-orllewin, [gareth@ucac.cymru](mailto:gareth@ucac.cymru)
- Roger Vaughan, Swyddog Maes y Gogledd, [roger@ucac.cymru](mailto:roger@ucac.cymru)
- Ywain Myfyr, Swyddog Maes, [ywain@ucac.cymru](mailto:ywain@ucac.cymru)

**Yn ogystal, mae modd cysylltu ag:**

- Ioan Rhys Jones, Ysgrifennydd Cyffredinol, [ioan@ucac.cymru](mailto:ioan@ucac.cymru)
- Iona Davies, Swyddog Polisi, [iona@ucac.cymru](mailto:iona@ucac.cymru)





**UCAC**  
Undeb  
Cenedlaethol  
Athrawon  
Cymru

Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth,  
Ceredigion SY23 2EU

ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | [ucac@ucac.cymru](mailto:ucac@ucac.cymru)

[f facebook.com/AthrawonCymru](https://www.facebook.com/AthrawonCymru) [t twitter.com/AthrawonCymru](https://twitter.com/AthrawonCymru)

[www.ucac.cymru](http://www.ucac.cymru)